**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-04-548
Ein cyf/Our ref: FM/00640/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
committeebusiness@cymru.gsi.gov.uk

26 Mehefin 2014

Annwyl William

Rwy’n ysgrifennu atoch yn ymateb i’ch llythyr, dyddiedig 30 Mai 2014, a oedd yn gofyn am fy marn ar ddeiseb a gyflwynwyd i’r Pwyllgor Deisebau yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drafod ailgyflwyno dosbarthiadau Cymraeg ym Mhrifysgol Rennes.

Gan mai fi sy’n gyfrifol am y Gymraeg, byddwn yn falch iawn o weld dosbarthiadau Cymraeg ym Mhrifysgol Rennes unwaith eto, yn enwedig o gofio’r cysylltiad cryf sydd rhwng Cymru a Llydaw.

Wedi dweud hyn, o gofio’r pwysau sydd ar gyllideb Llywodraeth Cymru, rhaid ystyried y mater o gyllido’r fath gwrs yn ofalus, gan fod rhaid cael y gwerth gorau am arian i bobl Cymru. Mae’n annhebygol, felly, fod Llywodraeth Cymru’n mynd i allu cyllido cwrs ym Mhrifysgol Rennes ond byddwn yn ddiolchgar petaech yn rhoi gwybod i mi am unrhyw ddatblygiadau pellach.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2082 1879
YP.PrifWeinidog@cymru.gsi.gov.uk •
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk